MAI

Allgymorth Cwm Taf Morgannwg

Ble aethon ni?

Ysbyty Cwm Cynon
Llyfrgell Hirwaun
Canolfan Feddygol Hirwaun
Canolfan Gymunedol YMCA Hirwaun

Faint o bobl wnaethon ni siarad â nhw?

Buom yn siarad ag 80 o bobl ar draws Cwm Taf Morgannwg ym mis Ebrill

80

Beth glywsom ni?

'Cefais reolydd calon yn YTS ym mis Ionawr a chefais wasanaeth gwych yno'
'Cefais fabi yn YTS fis yn ôl a chefais brofiad gwych yno'
'Gallaf gael apwyntiad gyda Chanolfan Feddygol Hirwaun ar unwaith'
'Es i i Adran Damweiniau ac Achosion Brys YTS ddoe am frathiad ci, roedd hi mor brysur yno. Roeddwn i'n aros 5 awr yno ond cefais wasanaeth anhygoel gan y Nyrsys.
'Gwasanaeth gwych yng Nghanolfan Feddygol Hirwaun. Cefais ymweliad cartref gan ac roedd hi yno erbyn 1yp. Dw i'n ei gweld hi eto heddiw, mae hi'n wych'
'Hapus iawn gyda fy mrechiadau covid yn YCC, fe lwyddon nhw i gael apwyntiad i mi a fy ngŵr ar yr un pryd, yn gyfleus iawn'

''Mae Meddygfa Parc yn gwneud diagnosis dros y ffôn, ni allaf byth weld meddyg. Rwy'n gyn-glaf canser ac nid wyf yn teimlo fel pe bai rhywun yn cadw llygad arnaf'
'Arhosiad o 10 diwrnod am feddyginiaeth o'r diwrnod y rhoddais fy mhresgripsiwn, roeddwn i'n arfer byw yng Nghastell-nedd/Port Talbot ac yn arfer aros 3 diwrnod. Dim problemau gyda Chanolfan Feddygol Hirwaun ar wahân i'r aros am feddyginiaeth'
'121 o weithiau bu'n rhaid i mi ffonio Canolfan Feddygol Hirwaun cyn i mi gael ateb. Mae cael apwyntiad yn teimlo fel ennill y loteri. Roedd yn llawer gwell flynyddoedd yn ôl
'Rydw i gyda Meddygfa Parc ac ni allaf byth gael apwyntiad. Pan fydda i'n llwyddo i weld meddyg, mae yna un gwahanol bob amser. Does dim perthynas yn cael ei hadeiladu, dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel
'Arhosiad ambiwlans 8 awr am PCH, roedd rhaid i mi gael lifft gan fy chwaer yn lle hynny'